

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Nesta W. Davies (Cefn Meiriadog) ac Arthur Owen (Llanefydd) sydd wedi cael llawdriniaeth yn ystod yr wythnos. Gweddiwn y bydd y gwaith hwn yn llwyddiannus ac y bydd y dyddiau nesaf yn rhai lle y byddant yn cryfhau ac yn adnabod daioni yr Arglwydd. Cofiw'n hefyd am Susannah Williams (Llansannan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ers rhai dyddiau, ac am Morgan Owen (Llanefydd) sydd mewn platar yn dilyn anffawd yn ddiweddar. Cyflwynwn hwy oll, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd.
- Llongyfarchiadau i Eilir Davies (Saron) a Charlene ar enedigaeth merch. Dymunwn fendith Duw ar y teulu bach.

I ddod

- **Adnabod DAWN** yn y Granar, Llansannan ar nos Fercher, Mai 30ain am 7.30 - yr ail yn y gyfres i feithrin arweinwyr lleol. Bydd y sesiynau dilynol ar Mehefin 19eg, Gorffennaf 3ydd a'r 17eg.
- **Y Gairathon** (o'r Bala i Lanfihangel y Pennant) dydd Sadwrn, Mehefin 9fed. Cysylltwch ag Elen Elias (01492 543320/07760 452145) os oes gennych ddi-ddordeb i redeg rhywfaint o'r daith. Manylion yr oedfa a'r trefniadau eraill i ddilyn.
- **Cymanfa Ganu** yr Annibynwyr (oedolion a phlant) yng Nghapel Bethel, Stryd Newydd, Yr Wyddgrug ar bnawn Sul, Mehefin 10fed am 2.30. Arweinydd: Iona Jones, Llansilin. Croeso cynnes i bawb.
- **Diwrnod Genod (16+)** yng Ngholeg y Bala nos Wener a dydd Sadwrn, Mehefin 15-16eg. Cyfle i ymlacio, rhannu cymdeithas a dysgu. Mwy o fanylion trwy ffonio Angharad Clwyd: (01678) 520565.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 20^{fed} Mai 2012

"Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi
bob amser hyd ddiwedd amser."
Mathew 28:20

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Mae'n anodd dychmygu'r byd heb 'mobile phone' bellach. Ffôn symudol, ffôn ar y lôn neu'r ffôn bach – tybed beth yw eich enw Cymraeg chi arno? Mae cael signal da yn hanfodol a weithiau fe fydd y signal yn diflannu a'r sgwrs yn mynd yn unochrog iawn! Er mwyn cael y signal yn ôl byddwn fel arfer yn gweiddi 'Helo' ddwy neu dair o weithiau gan godi'r llais wrth fynd cyn cau y ffôn yn glep yn ein siom na weithiodd o!

"Dydd Iau Dyrchafael" oedd hi dydd Iau diwethaf pryd yr oeddem yn cofio'r tro olaf i Iesu siarad hefo'r disgyblion wyneb yn wyneb cyn iddo ddyrchafu yn ôl at ei Dad. Cyn mynd o'u golwg mae Iesu yn rhoi gorchymyn hefyd i'w ddilynwyr, sef iddynt fynd yn ôl i Jerwsalem ac aros yno am yr Ysbryd Glân – yr Ysbryd yr oedd wedi ei ddisgrifio mor fanwl yn ystod y sgwrsiau yn yr oruwchystafell (Ioan 14-17).

Mynd yn ôl ddaru nhw fel y gorchynnodd Iesu, a buont yn aros am wythnosau cyn i'r hyn a addawodd Iesu ddigwydd, sef y 'Pentecost' rhyfeddol hwnnw pan ddaeth yr Ysbryd a'i sŵn fel gwynt nerthol o'r nef a'i bresenoldeb fel tafodau o dân yn syrthio ar bob un. Mae yna berthynas agos rhwng y ddau ddigwyddiad, Dydd Iau Dyrchafael a Dydd y Pentecost.

Roedd Iesu wedi addo na fyddai byth yn gadael ei ddisgyblion ond y byddai yn anfon yr Ysbryd atynt er mwyn iddo fod hefo pob disgybl ymhob man trwy'r holl fyd ac hyd ddiwedd y byd. Ni fydd Iesu byth yn colli'r 'signal' sydd rhyngddo a'i ddisgyblion oherwydd mai trwy'r Ysbryd y mae yn siarad hefo ni – a thrwy ei Air bywiol. Does dim perygl i'r Ysbryd golli ei nerth ac nid yw'n bosibl i ni ffoi i unlle oddi wrth yr Ysbryd – ddim hyd yn oed petaem yn gosod ein gwely yn uffern neu ein bod yn trigo yng nghanol y môr (Salm 139). Does dim posibil i'r Gair golli cryfder ei signal chwaith – dyma Air ein Duw sydd yn sefyll am byth! (Eseia 40: 8)

Felly, os ydym weithiau yn teimlo fod yr Arglwydd ymhell a'r signal yn wan – ein bod, fel y disgyblion yn Jerwsalem, yn aros yn ufudd a dim byd fel petai'n digwydd, cofiw'n mai yn ein lle ni yr aeth Iesu i'r groes, er ein mwyn ni yr atgyfododd ac er ein mwyn ni y dyrchafodd i eiriol trosom. Hyn i gyd, er mwyn i ddydd Iau Dyrchafael ac eiriolaeth dragwyddol Iesu droi yn Ddydd y Pentecost yn ein bywyd ni.

"Esgynnodd mewn gogoniant llawn, goruwch y nefoedd fry, ac yno mae, ar sail ei iawn, yn eiriol drosom ni." (Emyn 543 - Caneuon Ffydd)

"Esgyn a wnaeth i entrych nef, i eiriol dros y gwan; Fe sugna f'enaidd innau'n lan – i'w fynwes yn y man." (Emyn 493 - Caneuon Ffydd)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30 (*sylwch ar y newid noson*).
• **Tyfu Arweinwyr** (sesiynau ar rannu'n ffydd) nos Fawrth, Mai 22ain yng Nghapel Penybryn, Wrecsam am 7.00. Manylion gan Rhodri.
- Mercher • Grwpiau '**Dod i Adnabod**' (**Aneurin a Rhodri**) yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 8.00.
• Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
• **Noson ddwyieithog i athrawon Ysgol Sul, arweinwyr plant a ieuentid a gweithwyr ysgolion** nos Fercher, Mai 23ain yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug am 7.00. Am fwy o fanylion, ffoniwch Gwyn Rhydderch ar 07979 860537.
- Iau • Y sesiwn olaf o'r drafodaeth ar y thema "**Ymestyn Allan**" yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych am 7.00 gyda'r Parchg Athro Euros Wyn Jones yn agor y drafodaeth. Croeso cynnes i bawb.
- Gwener • Bydd y rhai fu ar y cwrs ieuentid yng Ngholeg y Bala yn ddiweddar yn ymuno â chriw **C.I.C. (Clwb Ieuentid Cristnogol)** yn y Ganolfan yn Llansannan am 7.00.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog am 10.30 gyda chinio cynnil (£5) i ddilyn, gyda'r elw tuag at Gymorth Cristnogol. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn y cinio. Yn Llanfair, cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol i'r teulu a Chyfarfod Gweddi am 10.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Saron am 2.00 gyda Huw a Haf Evans, Tan y Graig, Cefn Meiriadog yng ngofal y gwasanaeth. Bydd y casgliad yn mynd at Gronfa Nyrsus Marie Curie.
- Sul nesaf Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa am 10.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Saron am 2.00 gyda Huw a Haf Evans, Tan y Graig, Cefn Meiriadog yng ngofal y gwasanaeth. Bydd y casgliad yn mynd at Gronfa Nyrsus Marie Curie. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00 (*sylwer ar y newid amser*). Bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais yn yr oedfa yn Saron er mwyn ethol blaenoriaid newydd. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Saron am 2.00 gyda Huw a Haf Evans, Tan y Graig, Cefn Meiriadog yng ngofal y gwasanaeth. Bydd y casgliad yn mynd at Gronfa Nyrsus Marie Curie. Bydd Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd oedfa Cymorth Cristnogol undebol i'r teulu dan arweiniad Rhodri Glyn yn Llanefydd am 10.00. Bydd cyfle i brynu nwyddau Masnach Deg ar ddiwedd y gwasanaeth.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf Bydd Arawn Glyn yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.